**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | A Pugh | R V Smith |
| A H Stevens | | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): -

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): -

---

## 94. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith fudd personol a rhagfarnol â Chofnod 99 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

## 95. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2022.

## 96. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

1) **Setliad Llywodraeth Cymru**

Dywedodd Arweinydd y cyngor fod y cyngor wedi derbyn setliad Llywodraeth Cymru. Croesawyd y setliad, gan ei fod yn ychwanegu at yr arian yr oeddem ni'n credu ei fod yn gyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag mae'r setliad yn sylweddol llai na'r hyn sydd ei angen o gofio'r pwysau a wynebir gan gynghorau a gwasanaethau lesdled Cymru. Mae'r pwysau ynni yng Nghymru, mewn Llywodraeth Leol yn unig, yn parhau i fod dros £200,000,000.

## 97. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 98. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 99. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod  Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Blaenymaes | Stephani Keys |
| 2) | Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw | Helen McLaughlin |
| 3) | Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Ruth McNamara |
| 4) | Ysgol Gyfun Gŵyr | Phillip Morris |

## 100. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2il 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2022/2023 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys yr ansicrwydd materol, a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mharagraff 2.7 o'r adroddiad a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn fel a nodir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad yn

amodol ar unrhyw gyngor pellach gan y Swyddog Adran 151 yn ystod y flwyddyn.

3) Mae angen i bob Cyfarwyddwr barhau i leihau gwariant gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod bod y gyllideb yn gyffredinol yn cael ei chydbwyso ar hyn o bryd dim ond drwy ddibynnu ar ad-daliad tebygol yn y dyfodol (ond ymhell o fod yn gwbl sicr) gan Lywodraeth Cymru, cyllidebau wrth gefn a ddelir yn ganolog ac atgyfnerthu cronfeydd wrth gefn.

4) Mae'r Cabinet yn cydnabod mai dim ond yn awr y gellir ceisio’n rhesymol i leihau gorwario yn y flwyddyn bresennol, yn hytrach na'i ddileu, drwy gamau gweithredu adfer penodol gyda disgwyliad clir o ddewisiadau ailseilio 'anodd' i gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer rownd gyllideb 2023-24.

5) Mae'r gorwario dangosol yn adran 4.1 o'r adroddiad gyda chamau pellach i'w cadarnhau yn y chwarteri dilynol unwaith y bydd yn gliriach o ran y lefel ad-daliad COVID sy'n weddill, cost derfynol debygol y dyfarniad cyflog llywodraeth leol a gaiff ei dalu yn y trydydd chwarter a'r ansicrwydd parhaus ynghylch dyfarniad cyflog yr athrawon.

## 101. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 2 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn darparu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi perfformiad y cyngor o ran rheoli'r pandemig a'i ganlyniadau a chyflawni amcanion lles y cyngor ar gyfer chwarter 2, 2022-23.

2) Cymeradwyo’r defnydd o'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 102. Cyngor Abertawe - Sero-net 2030.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn ceisio sêl bendith ar gyfer cynllun cyflawni Cyngor Abertawe Sero Net 2030. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod y gwaith ar raglenni Adferiad Natur ac Abertawe Sero Net 2050.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynllun cyflawni Cyngor Abertawe Sero Net 2030 arfaethedig, sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 yr adroddiad.

2) Cydnabod y gwaith parhaus ar raglenni Adferiad Natur a Sero Net Abertawe 2050, y bydd angen cyflwyno adroddiadau ar wahân i'r Cabinet amdanynt yn y dyfodol.

**103. Adroddiad Monitro Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 Cyngor Abertawe i Lywodraeth Cymru mis Rhagfyr 2022.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Monitro Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) y cyngor ar gyfer y cyfnod o Ionawr 2020 i Ragfyr 2022 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo a chyhoeddi’r adroddiad a’i anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.

**104. Diweddariad ar Gydymffurfio Statudol ym Mhortffolio Gweithredol y Cyngor.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn rhoi’r diweddaraf am gynnydd ar ôl mabwysiadu'r Strategaeth Cydymffurfio Statudol ar gyfer adeiladau dan reolaeth Cyngor Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi’r cynnydd a'r camau gweithredu.

**105. Awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf I Roi Cyllid I Gefnogi Cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim I Bawb Mewn Ysgolion Cynradd.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" i neilltuo ac awdurdodi ail ddyfarniad grant cyfalaf, swm o £2,526,996, ar gyfer uwchraddio isadeiledd prydau ysgol, yn y rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo’r ail ddyfarniad grant cyfalaf ar gyfer uwchraddio isadeiledd prydau ysgol, swm o £2,526,996, a fydd yn arwain at neilltuo cyfanswm o £4,331,993, a'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022-2023.

**106. Awdurdodiad ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf i neilltuo'r cyllid grant cyfalaf a ddyfarnwyd i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i neilltuo ac awdurdodi cynlluniau i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo’r cynllun cyfalaf, swm o £1,443,998 i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022-2023.

**107. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Dyraniad Cyfalaf Ychwanegol i Raglen Waith Priffyrdd 2022-23.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn cadarnhau Dyraniad Cyfalaf Ychwanegol y Rhaglen Waith Priffyrdd 2022-2023 ac i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol i neilltuo a chymeradwyo cynlluniau.

**Penderfynwyd:**

1) Cynnwys y dyraniad ychwanegol o £1 filiwn ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022-2023.

2) Cynnwys y dyraniad ychwanegol o £2 filiwn ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023-2024.

3) Cynnwys y dyraniad ychwanegol o £2 filiwn ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024-2025.

4) Rhoi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant, gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, i flaenoriaethu, cwblhau a chlustnodi arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.37 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 15 Rhagfyr 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 20 Rhagfyr 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 21 Rhagfyr 2022 |